# Cofnodion Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Y Grŵp Trawsbleidiol ar Bysgodfeydd a Dyframaethu |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 16 Medi 2024 |
| **Lleoliad:** | ar-lein |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl / Sefydliad:** |
|---|---|
| Mabon ap Gwynfor | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Siôn Edwards | Cyfieithydd ar y Pryd |
| Helen Duggan | Seafish, Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Jon Parker | Aquaculture Industry Wales (AIW) |
| James Wilson | Diwydiant cregyn gleision Menai |
| Lewis Le Vay | Prifysgol Bangor |
| Meg Haines | Câr-y-Môr |
| Jane Roche | Catch of the Day |
| Andrew Tait | Cenhadaeth y Pysgotwyr |
| Justin Whitford | International Aqua Tech Ltd (aelod o AIW) |
| Julie Hill | Lobster Pot |
| Jack James | Pontus Research |
| David Fletcher | Ymgynghorydd ym maes ymchwil a datblygu |
| Aoife Martin | Seafish |
| Lynn Gilmore | Seafish |
| Jesse Drake | Seafish |
| Graham Black | Cadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Bysgod Môr Cymru ac Aelod o Fwrdd Seafish |
| David Jarrad | Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr (SAGB) |
| Paul Howes | Prifysgol Abertawe |
| Lissa Clayton | Syren Shellfish |
| Jim Evans | Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA) |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Vikki Howells | Aelod o'r Senedd dros Gwm Cynon |
| Cefin Campbell | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Sam Rowlands | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Gogledd Cymru |
| Samuel Kurtz | Aelod o'r Senedd dros Orllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Llyr Gruffydd | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Gogledd Cymru |
| Laura Jones | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Dwyrain De Cymru |
| Natasha Asghar | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Dwyrain De Cymru |
| Rhys ab Owen AS | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Canol De Cymru |
| Adam Price | Aelod o'r Senedd dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Mark Isherwood | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Gogledd Cymru |
| Luke Fletcher | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Gorllewin De Cymru |
| Rhianon Passmore | Aelod o'r Senedd dros Islwyn |
| Darren Millar | Aelod o'r Senedd dros Orllewin Clwyd |
| Peredur Owen Griffiths | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Dwyrain De Cymru |
| Heledd Fychan | Aelod o'r Senedd yn cynrychioli Canol De Cymru |
| | |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

Croesawodd Mabon ap Gwynfor bawb i'r cyfarfod, gan ymddiheuro am yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cyfarfod blaenorol.

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 eu cymeradwyo.

Cynigiodd Mabon ap Gwynfor ei fod ef yn parhau i Gadeirio'r grŵp, gan gadarnhau nad oedd unrhyw enwebiadau eraill wedi dod i law, nac unrhyw wrthwynebiadau wedi'u mynegi.

Diolchwyd i Seafish am wasanaethu fel Ysgrifenyddiaeth y grŵp. Bydd yn parhau i gyflawni'r rôl hon.

Rhoddodd Jon Parker ddiweddariad ar ran Aquaculture Industry Wales. Roedd y pynciau y soniwyd amdanynt yn cynnwys gwaith ar gimychiaid pigog, gwaith ymchwil a gweithgarwch sy'n cael ei arwain gan Glwstwr Busnes y De-orllewin, uwchsgilio, a'r broses o ddenu newydd-ddyfodiaid. Tynnwyd sylw at yr angen am gydraddoldeb o ran cyllid a gwell dealltwriaeth o'r effaith gadarnhaol y gall cydweithio rhwng diwydiant a chymunedau ymchwil ei chael.

Yn ôl James Wilson, er bod clwstwr Bangor ar lwybr gwahanol, mae'n rhannu'r un gwerthoedd ag AIW. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud â Phrifysgol Bangor, Seafish a rhanddeiliaid allweddol eraill yn parhau, a'r nod yw datblygu gwaith ymchwil a chydweithio ar y rhwystrau, y cyfleoedd a'r manteision sydd ynghlwm

wrth gynyddu cynhyrchiant. Mae angen ailsefydlu'r gallu i gael mynediad diogel a sefydlog i'r farchnad, a hynny er mwyn cydbwyso'r cyflenwad a'r galw.

Rhoddodd Aoife Martin gyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru gan Seafish i gefnogi'r sector dyframaeth, ac ar gynhyrchion a gwasanaethau perthnasol ehangach Seafish. Roedd y prif bwyntiau'n cynnwys y canlynol:

- Mae James Wilson a Lewis Le Vay yn cynrychioli diwydiant cregyn gleision y Fenai yn y Gweithgor Rhanddeiliaid ar Bysgod Cregyn, sy'n gweithio ar wella ansawdd dŵr i gefnogi twf yn niwydiant dyframaeth y DU;
- Mae'r Fenai wedi'i chynnwys yn y gwaith sy'n cael ei wneud i gynyddu dealltwriaeth ynghylch gwasanaethau ecosystem a buddion lles cyhoeddus, a hynny fel bod llunwyr polisi a defnyddwyr yn deall y potensial;
- Mae dulliau arloesol o ddefnyddio cregyn gleision yn cael eu harchwilio er mwyn dod o hyd i ffyrdd o gynyddu'r galw;
- Mae Seafish yn cydweithio â Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas) er mwyn ceisio ehangu'r data ar ymchwil economaidd a pherfformiad sydd ar gael; ac
- Mae 'map ffordd' ar gyfer sicrhau cadwyn gyflenwi wydn ar gyfer bwyd môr yng Nghymru yn cael ei ddatblygu, ac mae'r map ffordd hwn yn destun mewnbwn gan y diwydiant, y byd academaidd a Llywodraeth Cymru.

Gwahoddodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i rannu eu sylwadau, a llywiodd drafodaeth agored ar ddyframaeth yng Nghymru. Roedd y pynciau allweddol a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys y canlynol:

- Cyfleoedd twf a ddaw yn sgil systemau dyframaethu ail-gylchdroi (RAS);
- Diffyg cyllid a chyfyngiadau ar gyllidebau blynyddol;
- Cytundebau gwleidyddol sy'n effeithio ar fynediad i farchnadoedd yr UE;
- Heriau sy'n gysylltiedig â chynllunio morol a gwasgfa ofodol;
- Gwella strwythur llywodraethu Llywodraeth Cymru ym maes pysgodfeydd;
- Cyfleoedd i Gymru arwain mewn rhai meysydd, gan fod y buddsoddiad sy'n ofynnol yn gymharol fach;
- Diffyg strategaeth glir ar gyfer y diwydiant bwyd môr yng Nghymru, a'r posibilrwydd y gall y 'map ffordd' a grybwyllir uchod ddarparu ffocws ar gyfer gweithredu sydd i'w groesawu.

Awgrymodd y Cadeirydd ei fod yn anfon llythyr at Lywodraeth Cymru ar ran y Grŵp Trawsbleidiol, er mwyn codi'r materion a nodwyd a gofyn am ymateb. Cadarnhaodd bawb y byddent yn croesawu'r cam hwn. Gwahoddwyd pawb i anfon manylion yr heriau allweddol y dylid eu cynnwys yn y llythyr at mabon.ap.gwynfor@senedd.cymru, a hynny erbyn dydd Gwener 20 Medi.

Nodwyd manylion yr Aelodau o'r Senedd a oedd yn absennol o’r cyfarfod hwn ac o gyfarfodydd blaenorol y grŵp trawsbleidiol.

Awgrymwyd y dylai’r agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf gynnwys cyflwyniad ynghylch 'Dyfodol Ein Bwyd Môr: Map Ffordd ar gyfer Cadwyn Gyflenwi Bwyd Môr Cymru'.

Diolchodd Mabon ap Gwynfor i bawb am ddod ac am gymryd rhan yn y drafodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben.

Camau i’w cymryd:

1. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn rhannu’r sleidiau ar gyfer cyflwyniad Aoife Martin gyda'r rhai a oedd yn bresennol, a hynny ar gais.
2. Bydd Aoife Martin a Jack James yn cysylltu â’i gilydd mewn perthynas â’r gwaith sy’n cael ei wneud yng Ngogledd Cymru o ran archwilio’r defnydd o gregyn gleision fel cynhwysyn cynaliadwy ar gyfer porthiant dyframaeth.
3. Dylai pobl anfon manylion ynghylch yr heriau allweddol y dylid eu cynnwys yn llythyr y Cadeirydd at Lywodraeth Cymru erbyn dydd Gwener 20 Medi.
4. Bydd y Cadeirydd yn cynnig dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf.